

Gwasanaethau i gyd am 10.30 os na nodir yn wahanol

Hydref 1 – Cymundeb - Gweinidog
8 <u>Cwrdd Undebol yr hydref - Parchg Dyfrig Rees</u> Casgliad at yr Adeiladau
15 – Gweinidog – Cwrdd Diolchgarwch
22 – Parchg Gareth Morgan Jones
29 - Gweinidog
Tachwedd 5 - Cymundeb - Gweinidog
12 - Gweinidog
19 - Gweinidog - Cwrdd Eglwys i drafod y flwyddyn nesaf
26 - Parchg Meirion Sewell
Rhagfyr 3 - Cymundeb – Gweinidog
10 - Gweinidog
17 – Gweinidog
24 - Gweinidog - (Oedfa Nadolig y Plant)
25 - Dydd Nadolig - Cymundeb am 9.30 - Gweinidog
31 - Gweinidog—Sul olaf Rosan fel ein gweinidog. Cinio yn y Grove wedi'r oedfa



Tabernacl Porthcawl

HYDREF 2017

Un o'r pethau sydd wir yn mynd ar fy nerfau i, yw gorfod aros a disgwyl am rywun neu rhywbeth, ac wrth edrych yn ôl jyst dros y mis a aeth hebio, bu'n rhaid i mi aros am 'delivery', Tesco, yn y deintydd, yn yr optegydd, yn y syrjeri, yn yr ysbyty, yn y milfeddyg, yn y siop, yn yr orsaf betrol, i oleuadau traffic i newid, i groesi'r hewl, i'r cyfrifiadur ddod mas o'i gwsg, am yr alwad ffôn, i Phil ddod mas o'r stafell molchi, i'r tecell i ferwi, i'r bwyd i goginio, i'r poen leihau, am y wawr wedi noson hir yn methu cysgu a.y.b, a.y.b, ma'r rhestr yn ddi-ddiwedd.

Wrth edrych ar fywydau rheiny o'n cwmpas, mae 'na adegau o aros a disgwyl, sy'n llawer dwysach ac ingol, er enghraifft, aros i'r galon sy' wedi ei rhwygo'n emosiynol i wella a thawelwch meddwl unwaith eto, aros am ganlyniadau arholiadau, aros am ganlyniadau cyfweliad am swydd, aros i glywed am ddyfodol swydd, aros am ryddhad o'r briodas anhapus, aros am ganlyniadau profion, aros am wellhad gwrthiol, aros am anadl olaf anwylyn. Yr aros, rym ni i gyd rhywbryd neu'i gilydd wedi ei brofi, yr aros hwnnw a all fod mor unig.

Ac ar ddechrau tymor y Cynhaeaf, rym ninnau fel aelodau o Eglwys Crist, hefyd yn aros, yn dal i ddisgwyl yn obeithiol am gynhaeaf ysbrydol, am dywalltiad nerthol yr Ysbryd Glân, a dyfodiad Teyrnas Dduw, fel y digwyddodd yn y gorffennol.

Ond sawl awr, diwrnod, wythnos, mis, blwyddyn, fydd yn rhaid i ni aros?

Wrth edrych ar, a chlywed am y dirywiad, lleihad a diffyg ymateb enbyd sydd yn eglwysi Cymru ar hyn o bryd, mae'n

ddigon hawdd i ni gredu mai ofer yw'r aros a'r disgwyl. Mae'n anodd credu y cawn ni gynhaeaf eto, fel petai'r had sydd eisoes wedi ei blannu yn ddi-werth, ddim yn eginol.

Ond dyw'r Arglwydd ddim yn gweld y sefyllfa yn yr un ffordd a ni, achos mae E'n pwysleisio na ddylwn ni fyth ddigalonni tra'n aros am y cynhaeaf. Mae dameg Crist am yr Hedyn Mwstard (Marc 4:30-32) yn cadarnhau hynny. Hanes yr hedyn bach, yr hedyn lleiaf, yn tyfu i fod yn blanhigyn mawr, a nifer o greaduriaid yn gallu cysgodi yn y canghennau.

Felly cyfrifoldeb yr Eglwys yw bwrw ymlaen â hau yr had, er gwaetha'r ffaith bod y tir yn ymddangos yn anffrwythlon, gan gofio bod posibiladau cynhaeaf Duw yn fwy o lawer na'n disgwyliadau pitw ni.

Meddai Dr Robert Schuller, "When faced with a mountain, I will not quit! I will keep on striving until I climb over, find a pass through, tunnel underneath or simply stay and turn the mountain into a gold mine with God's help!"

Byddwn amyneddgar felly a pheidio a digalonni, ond parhau i aros a disgwyl, achos mae'r hedyn wedi iddo gael ei hau, yn gwario lot fawr o amser yn y pridd, ond er nad i ni'n gallu ei weld, dyw hynny ddim yn golygu nad yw e'n gwneud dim. Achos ymhen amser, fe welwn ni'r pridd yn cael ei wthio ar wahan, a'r egin bach yn dangos ei ben, ac yna bydd yn tyfu'n ddyddiol i fod yn blanhigyn mawreddog.

Cadwn y ddelwedd hon mewn cof dros dymor y Cynhaeaf, gan gofio bydd y cynhaeaf siwr o ddod, "hyd ganwaith cymaint!!" Peidiwn fyth ddiystyru gallu deinamig yr hedyn bach. Efallai mewn blynyddoedd i ddod, fe welwn ni ffrwyth ein hau a'n gwaith. Ond yn y cyfamser ymddiriedwn yn Nuw i wneud ei waith, daliwn i gredu yn yr Un a roddodd fywyd yn yr had ar y dechrau cyntaf oll.

OEDFA NADOLIG Y GYMDEITHAS GYMRAEG

Cynhelir yr oedfa am 3.00 o'r gloch ar brynhawn dydd Sul 17eg Rhagfyr. Estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni yn y gwasanaeth.

CAROLAU YNG NGOLAU CANNWYLL Unwaith eto eleni rydym yn bwriadu cynnal y digwyddiad yma ar Nos Wener 15fed o Ragfyr yn y neuadd. Dewch i gefnogi a dechrau ar weithgreddau y Nadolig.

OEDFA GAROLAU ADRAN/AELWYD YR URDD

Bydd y gwasanaeth yma ar Nos Fercher Rhagfyr 20fed am 6.00 yn y capel. Dewch i gefnogi ieuenctid yr ardal yn eu dathlu.

SADWRN SIARAD

Mae y Boreau Coffi yma yn mynd o nerth i nerth. Mae yn gyfle gwych i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg ac i ddod i adnabod Cymry Cymraeg mewn awyrgylch gymdeithasol. Dewch i sgwrsio gyda'r dysgwyr ac i fwynhau cwpaned a rhywbeth i fwyta ar yr un pryd.

WEDI YMDDEOLIAD ROSAN

Mae'r Parchg Hywel Wyn Richards wedi cytuno i roi dau Sul y mis i ni dros y ddwy flynedd nesaf. Rhaid pwysleisio ni fydd yn weinidog arnom ond bydd yn ymweld â'r aelodau i ddod i adnabod ein cynulleidfa.

Rydym wedi crybwyll penodi Gweithiwr Ieuenctid/Teuluoedd Ifanc ar gyfer y pen yma o'r Cyfundeb gyda Chapel Tabernacl Pen-y-bont a'r Chyfundeb Dwyrain Morgannwg. Mae'r ddau wedi cytuno i drafodaethau pellach i weld a oes modd symud ymlaen ymhellach cyn cynnwys Undeb yr Annibynwyr hefyd yn ein trafodaethau. Y gobaith yw bydd y swydd yn cael ei hariannu rhwng y pedwar partner yma.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd y gwasanaeth yma fel Llan Llanast/Messy Church ar fore Sul 15fed o Hydref am 10.30. Roedd yn gyfle i ni ddiolch am yr hyn rydym yn derbyn yn feunyddiol ac am fywyd a gwaith yr Arglwydd Iesu. Cafwyd cyfle i wneud gwahanol weithgareddau celf ac ati ac i ddathlu penblwydd drwy rannu teisen.

CINIO NADOLIG

Bydd Cinio Nadolig Tri Chwrs yn yr Atlantic ar y 10fed o Ragfyr. Angen bod yno erbyn 12.30 ar gyfer bwyta am 1.00 Pris y bwyd fydd £21

OPERATION CHRISTMAS CHILD

Mae'r cyfle wedi dod unwaith eto i ni, aelodau a ffrindiau, i lenwi bocs sgidiau ar gyfer Operation Christmas Child. Mae pamffledi gyda'r wybodaeth angenrheidiol ar gael gan Rhiannon Price. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn eich bocsys yw Tachwedd.

Y llynedd, anfonwyd yn agos at 1.2 miliwn o focsys o'r Deyrnas Unedig i bob rhan o'r byd. Braint yw cael bod yn rhan o'r ymgyrch flynyddol yma. Diolch am eich cefnogaeth a diolch i Rhiannon am drefnu.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Cynhaliwyd y cyfarfod nos Fercher yng Ngharmel/Bethania Maesteg. Pwyllgor gwaith am 6.00y.h. a'r Gynhadledd am 7.00y.h. Cafwyd anerchiad gan Mrs Elenid Jones, 'Y Cri o Fadagascar.'

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL

Mae'r pwyllgor wedi trefnu noson gymdeithasol eto eleni. Bydd Dawnsywyr Penyfai yn arwain noson Twmpath (Dawnsio Gwerin) yn neuadd Eglwys yr Holl Saint am 7.30 nos Iau 26ain Hydref. Dewch i fwynhau cwmni aelodau o eglwysi eraill Porthcawl mewn noson hwyliog. Rhwch wybod i un o'r swyddogion os ydych am docynnau.

Meddai rhywun:

'Did is a word of achievement
Won't is a word of retreat
Might is a word of bereavement
Can't is a word of defeat
Ought is a word of duty
Try is a word for each hour
Will is a word of beauty
Can is a word of power.'

Mae'r yfory heb ei brofi,
mae ei stôr o hyd dan sêl;
mae pob dyfais mae am gynnig
a phob profiad o dan gêl:
ond wrth fentro mlaen cei flasu
gwir anturiaeth, ac fe weli
fod yfory yn obaith gwiw.

Peter M Thomas

Pob bendith

Rosan

Annwyl ffrindiau

Braf cael bod yn ôl yn eich plith ac yn diolch i Dduw am ei ofal drosof, a'ch gofal a'ch consyrn chwithau i gyd hefyd. Dymunaf ddiolch o waelod calon i Gerwyn am fod mor barod i arwain y gwasanaethau yn f'absenoldeb, gwerthfawrogwyd yn fawr ei arweiniad. Hefyd i'r Swyddogion a'r diaconiaid am eu gofal drosoch.

CYDYMDEIMLO

Rym ni fel eglwys yn cydymdeimlo'n ddwys iawn gyda Janette Lewis yn dilyn marwolaeth ei gŵr Colin. Gweddïwn hefyd dros Rhiannon, Paul, Anwen a Ieuan a'r teulu cyfan. Fe frwydrodd Colin yn ddewr am flynyddoedd ac yn awr mewn tangnefedd yng nghwmni ei Arglwydd.

Mae'r un cydymdeimlad yn mynd at Dewi a Rita a Lona yn eu colled enfawr o fab a brawd, a hynny mor ddisymwth. Danfonwn ein cariad tuag atoch a bydded i Dduw eich cysuro a'ch nerthu yn eich colled.

YSBYTY

Wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty mae Don Jones, Tom Price, Merle Davies. Estynnwn ein dymuniadau gorau i bob un ohonynt.

Cadwn yn ein gweddïau Jessie Gravelle yn Nghartref Gofal Brocastell. Cofiwn hefyd am Mair Davies, Haulwen Pierce, Barbara Jones ac eraill sydd oherwydd afiechyd a llesgedd yn methu mynychu'r oedfaon bellach.

DERBYN DIACON ANRHYDEDDUS

Yn oedfa Gymun mis Medi cefais y fraint o dderbyn y Parchg Gerwyn Jones yn ddiakon anrhydeddus yr eglwys hon. Bu i ni fel gweinidog, swyddogion a diaconiaid benderfynu y byddem ni a'r eglwys yn elwa o brofiad a chyingor Gerwyn yn ein cyfarfodydd ac felly estynnwn ni wahoddiad iddo i ystyried gwasanaethu'r eglwys fel diacon anrhydeddus. Ac er mawr lawenydd fe gytunodd. Ma' rhai o'r farn taw 'observers' yn unig dylai diaconiaid anrhydeddus fod, ond nid yn yr eglwys hon, y mwya' o gefnogaeth ac arweiniad y cawn ni, gore gyd. Diolchwn iddo am dderbyn y gwahoddiad ac yn edrych ymlaen yn fawr i gydweithio gydag ef er lles yr eglwys a theyrnas Duw.

DYMUNO'N DDA

Rhodddwn ein dymuniadau gorau i Barbara Jones wrth iddi symud o Danygraig i ymgartrefu yn Stoneleigh Court. Mae Merle Davies yn symud ystafell yn y cartref yng Ngaerdydd er mwyn iddi gael mwy o gymorth yn dilyn cwmp.

LLONGYFARCHIADAU CALONNOG

I ieuenctid yr eglwys a fu'n llwyddiannus mewn gwahanol arholiadau, academaidd a cherddorol. Dymunwn yn dda iddynt wrth iddynt ddechrau swyddi newydd, astudio mewn colegau neu parhau eu addysg yn yr ysgol.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i John Davies, Ramsey Close wrth iddo ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

YSGRIFENNYDD PULPUD

Oherwydd anhwylder, mae Mabel Winterburn wedi rhoi'r gorau i'r swydd fel Ysgrifennydd Pulpud. Diolchwn iddi am ei gwaith. Rym ni felly yn ymbil yn daer ar i un ohonoch lenwi'r swydd plis, cewch bob help a chefnogaeth.

GWAITH CYNNAL A CHADW

Diolch unwaith eto i'r Swyddogion a'r Diaconiaid am sicrhau bod yr holl waith oedd ei angen o gynnal a chadw'r adeiladau erbyn hyn bron a'u cwblhau a hefyd am gadw'r adeiladau yn saff o ran rheolau llym iechyd a diogelwch trydan a than. Diolch i Tom am adeiladu drws newydd i siambr modur yr organ, dyna grefftwr wrth ei waith!

Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn ddiweddar yn cynnwys -
Gwaredu'r colomennod uwchben drws y capel
Cywiro ble roedd y dŵr yn dod i mewn ar y galeri
Gwneud y gornel weddi
Paentio cefn y capel a'r grisiau cefn
Gosod canllawiau newydd i'r neuadd
Paentio'r neuadd
Paentio'r toiled tu allan
Gosod bocs rheoli trydan newydd
Gosod drws newydd ar gwtsh modur yr organ
Rhoi golau i oleuo y cyntedd ochr
Rhoi golau i oleuo ardal parcio ceir
Gosod canllaw ar y grisiau cefn

CASGLIADAU AT YR ADEILADAU

Diolch i chi am eich cyfraniadau tuag at yr Adeiladau ar Sul y Cyrddau Undebol. Maent yn holl bwysig i'n helpu i barhau i gadw ein haddoldy yn y cyflwr gorau posibl.

ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD

Yn y Neuadd ar y 10fed o Hydref am 2.00y.p. ac yna yn wythnosol hyd at y Nadolig.